Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 6 TACHWEDD 2018 am 2.00 y. p. | TUESDAY, 6 NOVEMBER, 2018 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Lewis Davies, John Griffith, Dylan Rees *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Alun Roberts, Nicola Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Richard Griffiths, Richard O. Jones

**PLAID LAFUR CYMRU/ WALES LABOUR PARTY**

J. Arwel Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)*(Cadeirydd/Chair)*
Bryan Owen

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) / CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales).

# R H A G L E N

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2 COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 14)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol -

- 8 Hydref, 2018 (arbennig)
- 24 Hydref, 2018

**3 BLAEN RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 15 - 22)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

**4 CYNLLUN YMGYNGHORI AR GYLLIDEB 2019/20** (Tudalennau 23 - 30)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid Corfforaethol.

**5 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 31 - 32)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"O dan Adran 100(A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd wedi'i atodi."

**6 GOSOD CYLLIDEB 2019/20 - CYNIGION CYCHWYNNOL** (Tudalennau 33 - 58)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-Gadeirydd yn y Gadair)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffith, Richard Griffiths, Richard O Jones, Alun Roberts, J Arwel Roberts, Nicola Roberts.<br><br>Aelodau Cyfetholedig: Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig); Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru).<br><br>Arweinydd y Cyngor - Y Cynghorydd Llinos M Huws;<br><br>Y Cynghorydd R Meirion Jones - Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant);<br><br>Y Cynghorydd Dafydd R Thomas - Aelod Portffolio Corfforaethol. |
| **YN BRESENNOL:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 (ar gyfer eitem 2),<br>Pennaeth Dysgu (ar gyfer eitem 2),<br>Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol a Thrawsnewid, (ar gyfer eitem 3),<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), Richard A Dew (Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygiad Economaidd), Bob Parry OBE FRAgS (Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff) .<br><br>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd,<br><br>**Gwahoddwyd aelodau eraill o'r Cyngor i'r cyfarfod**<br><br>Y Cynghorwyr KP Hughes a Peter S Rogers. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd A M Jones - Cadeirydd;<br>Y Cynghorydd Bryan Owen. |

---

Cafodd y cyfarfod ei gadeirio gan yr Is-Gadeirydd gan fod y Cadeirydd wedi cyflwyno ei ymddiheuriadau. Croesawodd yr Is-Gadeirydd y Cynghorydd John Griffith i’w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor hwn.

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni cafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 2 STRATEGAETH ADDYSG YNYS MÔN - MODERNEIDDIO YSGOLION (DIWEDDARIAD 2018)

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Dysgu mewn perthynas â Strategaeth Addysg Ynys Môn - Moderneiddio Ysgolion (diweddariad 2018).

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant fod y Strategaeth Addysg wreiddiol - Moderneiddio Ysgolion wedi'i chyhoeddi yn 2013 a bod y ddogfen hon yn diweddaru’r Strategaeth. Nododd fod yr Awdurdod hwn wedi gweithio'n agos gyda Phenaethiaid ac Aelodau Etholedig o ran y rhaglen moderneiddio ysgolion a bod10 o ysgolion cynradd llai sydd wedi cael eu cyfuno’n 3 ysgol 21ain ganrif fodern mewn tair ardal ym Mand A. Erbyn diwedd y rhaglen Band A, bydd 10% o ddisgyblion Ysgolion Cynradd Ynys Môn yn derbyn eu haddysg mewn adeiladau 21ain ganrif. Yn yr Ysgolion Uwchradd ar yr Ynys, mae'r gostyngiad yn y niferoedd a’r cynnydd mewn lleoedd gwag, ynghyd â'r toriadau a wynebwyd, wedi arwain at heriau cyllidebol sylweddol ar draws y sector uwchradd.  O ganlyniad i'r uchod, ynghyd â rhaglen lymder llywodraeth ganolog, nododd yr Aelod Portffolio bod rhaid  i'r Gwasanaeth Addysg ddod o hyd i arbedion o £ 5m dros y tair blynedd nesaf. Bydd Band B Rhaglen Moderneiddio Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru yn cael ei gyflwyno yn 2019, a bydd cyfle i foderneiddio ysgolion Ynys Môn ymhellach er mwyn mynd i'r afael â heriau cyllidebol lleol. Rhagwelir y bydd yn rhaid blaenoriaethu dalgylch Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch o fewn Band B gan fod nifer y lleoedd gwag yn uchel ac na fydd y cynnydd disgwyliedig yn nifer y disgyblion yn sgil Wylfa, sef oddeutu 200, yn gwneud gwahaniaeth sylweddol. Dywedodd ymhellach fod angen mynd i'r afael ag addysg ôl-16 ar yr Ynys hefyd.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu mai uchelgais yr Awdurdod hwn yw sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni eu potensial llawn. Fodd bynnag, dywedodd fod y sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn heriol yn y sector cynradd ac mae'r gwahaniaeth mewn gwariant fesul disgybl yn y sector cynradd yn achos pryder ac yn anghynaladwy ar gyfer y dyfodol. Dywedodd ymhellach fod 28% o leoedd gwag yn y sector uwchradd ar Ynys Môn ac y bydd yn rhaid mynd i'r afael â hynny os yw addysg uwchradd am fod yn gynaliadwy mewn rhai ardaloedd.  Cyfeiriodd y Pennaeth Dysgu at raglen lymder llywodraeth ganolog, sy'n golygu y bydd angen i’r Gwasanaeth Addysg dod o hyd i £5 o arbedion dros y tair blynedd nesaf ac y

bydd angen adolygu'r Strategaeth Foderneiddio er mwyn sefydlu system ysgolion a fydd ag adeiladau modern sy'n addas ar gyfer y 30 mlynedd nesaf er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau i ddisgyblion yr awdurdod. Nododd fod y broses addysg yn wynebu newidiadau helaeth na welwyd eu tebyg ers blynyddoedd. Mae angen i benaethiaid gael amser digyswllt digonol i arwain eu hysgolion yn effeithiol. Mae angen adolygu'r addysg ôl-16 a'i asesu i weld a yw'r patrwm presennol yn addas ar gyfer y dyfodol.

Ychwanegodd y Pennaeth Dysgu ymhellach bod Estyn yn 2013 wedi cyfeirio at yr heriau sy'n wynebu ysgolion bach yn eu hadroddiad 'Ysgolion Cynradd Bach yng Nghymru'. Mae'r rhain yn cynnwys yr her o addysgu dosbarthiadau oed cymysg sy'n cynnwys mwy na 2 neu 3 o grwpiau oedran; maint grŵp cyfoedion cyfyngedig a digonolrwydd her; cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol; anawsterau wrth recriwtio a chadw staff a gormod o feichiau ar staff. Amlinellodd yr ysgogwyr newid ar gyfer Band B (2019-2026) fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Pennaeth Dysgu at gapasiti arweinyddiaeth a rheolaeth o fewn Ysgolion yr Awdurdod a nododd fod yr heriau sy'n gysylltiedig ag arwain a rheoli ysgolion wedi cynyddu'n sylweddol. Mae angen digon o amser digyswllt ar benaethiaid i fynd i'r afael â materion arweinyddiaeth. Nododd fod y Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo rhaglen ddatblygu 'Arweinwyr y Dyfodol' ar gyfer darpar Benaethiaid, Penaethiaid di-brofiad, neu'r rheini a gydnabuwyd bod ganddynt botensial i ymgymryd â rôl arweinyddiaeth.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad y Swyddog a'r wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol: -

- Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at ddatganiad diweddar gan y Prif Weinidog yn dweud bod rhaid i'r rhaglen lymder ddod i ben a gofynnodd a fyddai angen yr arbedion o £ 5m y gofynnwyd i'r Gwasanaeth Addysg eu gwneud dros y tair blynedd nesaf? Atebodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ei fod o'r farn bod y Prif Weinidog wedi dweud y daw'r llymder i ben ar ôl Brexit. Dywedodd y disgwylir setliad drafft llywodraeth leol ar gyfer 2019/20 ar 9fed Hydref, 2018 ac nad oedd yn disgwyl cael unrhyw fanylion pellach fel rhan o'r setliad. Nododd y bydd Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn cael ei gyhoeddi yn yr haf 2019 ac mae'n bosib y daw'r llymder i ben yn ystod y cyfnod hwn;
- Cyfeiriodd y Pwyllgor at y gofyniad i adolygu'r ddarpariaeth addysg ôl-16 ar yr Ynys a mynegwyd pryderon bod disgyblion yn gorfod symud o un ysgol uwchradd i un arall i dderbyn eu pynciau dewisol ar lefel Safon Uwch. Mynegwyd ymhellach y gallai'r disgyblion hyn fod yn teithio i fwy nag un ysgol i dderbyn eu haddysg ac ymddengys eu bod yn colli cysylltiad â'u prif ysgol. Ymatebodd y Pennaeth Dysgu bod angen cynnal ymgynghoriad i fesur yr angen i adolygu addysg ôl-16 ar yr Ynys. Mynegodd y Pwyllgor bryderon bod rhai disgyblion yn gadael ysgolion uwchradd ar yr Ynys i dderbyn addysg ôl-16. Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod yn hanfodol bod yr adolygiad o addysg ôl-16 yn mynd i'r afael â hyn;

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y gyllideb y bydd ei hangen i fynd i'r afael â'r diffygion difrifol mewn nifer o safleoedd ac adeiladau ysgol ac a yw'r gwasanaeth yn gallu mynd i'r afael â'r mater hwn tra'n gorfod gwneud arbedion o £ 5m dros y tair blynedd nesaf. Cafwyd eglurhad manwl gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Adran 151 o'r broses ar gyfer ariannu prosiectau ysgol newydd.   Nododd bod Llywodraeth Cymru bellach yn ymchwilio i senarios gwahanol o ran y model ariannol i ariannu Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yr 21ain Ganrif. Rhoddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 enghraifft – roedd cyfanswm cost Ysgol Rhyd y Llan yn £ 6m a benthycodd yr awdurdod £ 2.5 miliwn sy'n cyfateb i £ 100k y flwyddyn.  Nododd fod arbediad o £ 72k wedi'i sicrhau trwy gau'r tair ysgol yn yr ardal. Roedd yn cyfle hefyd i gael gwared ar adeiladau ysgolion bach a oedd angen gwaith cynnal a chadw parhaus ynghyd â'r lleoedd gwag yn y dalgylch. Mynegodd y Pwyllgor ymhellach y gallai ansicrwydd o ran Brexit, olygu bod llai o gyllid yn dod i Lywodraeth Cymru gan y llywodraeth ganolog ac y bydd hynny'n cael effaith ar yr adnoddau sydd ar gael i awdurdodau lleol symud ymlaen gyda'r rhaglen moderneiddio ysgolion. Ymatebodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod rhywfaint o sicrwydd o ran y cyllid tuag at Band B y rhaglen moderneiddio ysgolion ond bod Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiwn arall o ran Band C, sef  'Model Buddsoddi ar y Cyd', cynllun ble bydd buddsoddwr / datblygwr yn adeiladu ysgolion a'r awdurdodau lleol yn talu ffi dros gyfnod o amser o ran cynnal a chadw'r adeiladau;
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch erthygl yn y wasg leol yn ddiweddar yn nodi bod yr Awdurdod hwn am gau ysgolion â llai na 120 o ddisgyblion; mynegwyd nad oes sôn am hynny yn y Strategaeth Addysg. Dywedodd  y Pennaeth Dysgu y bydd pob ardal yn cael ei hystyried ac y bydd y ddarpariaeth addysgol yn cael ei hasesu gyda lleoedd gwag a chyflwr adeiladau'r ysgol a ffactorau cost eraill yn cael sylw;
- Cyfeiriodd y Pwyllgor at y broses ymgynghori o ran y broses moderneiddio ysgolion ac a ellir dysgu gwersi o'r ymgynghoriad diweddar ar gau ysgolion ar yr Ynys a sicrhau bod y cyhoedd yn fodlon eu bod yn cael gwrandawiad. Ymatebodd y Pennaeth Dysgu bod y broses ymgynghori fe ymddengys, wedi bod yn fwy cynhyrchiol o fewn grwpiau llai;
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch pryd y bydd y gwariant fesul pen / person yn gyfartal yn yr ysgolion ar draws Ynys Môn. Atebodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod y cyllid a roddir i ysgolion yn cael ei ddosbarthu gan ddefnyddio fformiwla sy'n dibynnu ar nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol. Mae ysgolion cynradd llai yn derbyn yr hyn sy'n cyfateb i gyllid ychwanegol i gynnal y lefelau staffio sylfaenol, h.y. o leiaf un Pennaeth ac athro/athrawes ar y safle.  Roedd gwariant fesul disgybl yn y sector cynradd yn Ynys Môn oedd y 5ed uchaf allan o'r 22 awdurdod yng Nghymru yn 2018/19, i lawr o'r 3ydd uchaf yn 2017/18;
- Mynegwyd pryder ynghylch yr oedi gydag agor Ysgol Gynradd newydd Santes Dwynwen yn Niwbwrch a bod angen cynnwys cymal cosb mewn unrhyw ddarpariaeth i adeiladu ysgol newydd yn y dyfodol.
- Mynegwyd pryderon nad yw Penaethiaid yn cael digon o amser di-gyswllt mewn ysgolion. Dywedodd y Pennaeth Dysgu y gellir cynnal amser di-gyswllt i Benaethiaid mewn ysgolion mwy ond pan fydd arbedion cyllidebol yn cael eu gorfodi ar ysgolion,

bydd y broblem yn fwy cynyddu a bydd yn rhoi pwysau ar Benaethiaid i orfod dysgu ac arwain yr ysgolion.

- Roedd Aelodau'r Pwyllgor o’r farn y byddai'n fanteisiol mynd i weld Ysgol Dysgu Gydol Oes ynghyd ag un o'r Ysgolion 21ain Ganrif newydd ar yr Ynys.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith: -**

- **Cytuno i fabwysiadu Strategaeth Addysg Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn (Diweddariad 2018) a fydd yn dod i rym ar 15 Hydref, 2018 ymlaen a rhoi sylw i dalgylch Ysgol Syr Thomas Jones;**

- **Cytuno bod Swyddogion yn dechrau'r broses ymgynghori o fewn ardaloedd Band B dros y 12 mis nesaf. Gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau canlynol hefyd: -**

- **Cydnabod yr angen i weithredu ar frys mewn perthynas ag Addysg Ôl-16 ar yr Ynys;**
- **Dylid ystyried pa mor fforddiadwy fyddai gweithredu'r strategaeth yn y dyfodol;**
- **Mae angen rhoi sylw i gyflwr ysgolion ar yr Ynys.**
- **Dylid gwneud pob ymdrech wrth weithredu'r strategaeth i gadw disgyblion Ôl-16 ar yr Ynys;**
- **Dylid rhoi sylw i’r mater o fynd i'r afael â 'chost y pen' disgyblion ar draws yr Ynys;**
- **Cydnabod yr angen i weithredu'r opsiynau gorau ar gyfer meysydd penodol ac nad oes sôn yn y ddogfen am gau ysgolion â llai na 120 o ddisgyblion;**
- **Dylid rhoi sylw i amser di-gyswllt Penaethiaid mewn Ysgolion;**
- **Mae'n hanfodol bod yr amserlenni ar gyfer adeiladu ysgolion newydd yn cael eu gwireddu;**
- **Bod trefniadau priodol ac ystyriol yn cael eu gwneud yn ystod y cyfnod ymgynghori er mwyn rhoi cyfle i'r cyhoedd fynegi eu barn / pryderon;**
- **Ystyried trefniadau i Aelodau ymweld ag ysgolion dysgu gydol oes ac un o'r ysgolion newydd a adeiladwyd yn ddiweddar ar yr Ynys.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

## 3 ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL (CYNLLUN GWELLA) 2017/18

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid ac Adnoddau Dynol mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Corfforaethol bod y Cynllun Perfformiad Blynyddol yn edrych yn ôl ar berfformiad y Cyngor ar gyfer 2017/18 ynghyd â chynnydd y Cyngor yn erbyn Amcanion Llesiant yr Awdurdod. Amlinellodd yr Aelod Portffolio gyflawniadau'r Cyngor yn ystod 2017/18 fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd ymhellach at y Dangosyddion Perfformiad ar gyfer 2017/18 a bod gwasanaethau'n gwella er bod y Cyngor yn wynebu gorfod gwneud arbedion o £ 2.5m o fewn y gyllideb. Cyhoeddir y Dangosyddion Cenedlaethol, a elwir yn Fesurau Atebolrwydd Perfformiad (PAM ) ac fe gymherir pob awdurdod lleol yn erbyn yr un dangosyddion. Yn 2017/18, roedd 50% o'r dangosyddion ar gyfer yr Awdurdod hwn wedi gwella, 36% wedi gostwng o ran perfformiad ac roedd 14% o'r dangosyddion yn newydd. Nododd bod y dangosyddion PAM yn cael eu hadolygu bob blwyddyn a dangosyddion perfformiad newydd yn cael eu cyflwyno i fonitro perfformiad yn genedlaethol.

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad y Swyddog a'r wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol: -

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y modd y mae dangosyddion perfformiad 2017/18 yn effeithio ar raglenni gwaith ar gyfer y blynyddoedd nesaf ac a oes angen rhoi blaenoriaeth i rai gwasanaethau sydd wedi cael eu hamlygu fel risgiau. Atebodd y Prif Weithredwr fod yr Adroddiad Perfformiad yn rhoi arwydd o’r modd y mae'r Cyngor yn perfformio ar amser penodol. Dywedodd mai'r peth pwysicaf yw fod y Cyngor yn parhau i wella'r gwasanaethau a ddarperir;
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod yr Ynys wedi dioddef pocedi o amddifadedd gyda lefelau uchel o bobl ifanc yn ddi-waith a phobl ifanc hefyd yn gadael yr Ynys i ddod o hyd i waith. Codwyd cwestiynau ynghylch faint o bobl a oedd wedi gallu manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth yn dilyn datblygiadau diweddar ar yr Ynys h.y. Ffordd Gyswllt Llangefni, prosiect Bluestone, Msparc yn Gaerwen ac ati, ac a yw hyn wedi gwella economi'r Ynys. Ymatebodd y Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol a Thrawsnewid fod pobl, os ydynt mewn cyflogaeth, yn gallu gyfrannu at yr economi leol ac yn gallu gwella ansawdd eu bywydau. Bydd angen i adran arall ofyn am y ffigurau o ran y bobl ifanc sydd wedi llwyddo i gael gwaith gyda sefydliadau newydd a bydd y wybodaeth yn cael ei hanfon ymlaen at aelodau maes o law. Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yr amcanion o fewn y Cynllun Perfformiad wedi'u pennu gan y Cyngor a chyfeiriodd at Barc Gwyddoniaeth Menai, sef yr unig gyfleuster yng Nghymru sy'n cynnig adnoddau o'r fath a’i bod yn gynamserol ar hyn o bryd i werthuso effaith cyfleuster o'r fath ar economi'r Ynys;
- Gofynnwyd am eglurhad a yw 36% o'r PAM sydd wedi dirywio mewn perfformiad yn achosi mwy o bryder nag eraill. Atebodd y Prif Weithredwr fod pob dangosydd perfformiad yn bwysig a bod angen ymchwilio i'r rhesymau pam y mae perfformiad yn erbyn dangosyddion wedi gostwng;
- Mynegwyd pryderon bod un o'r dangosyddion perfformiad yn dangos nad yw lefel uchel o’r bobl ifanc sydd yn gadael yr ysgol mewn hyfforddiant nac mewn addysg barhaus. Cyfeiriwyd at y ffaith y disgwylir y bydd cyfleoedd cyflogaeth ar gael oherwydd y datblygiadau economaidd ar yr Ynys yn y dyfodol agos a bod angen dod o hyd i'r cyfleoedd hyn ar gyfer pobl ifanc lleol. Ymatebodd Arweinydd y Cyngor fod Grŵp TRAC & OPUS wedi ei sefydlu i gefnogi unigolion y credir eu bod bellaf o'r farchnad lafur gyda rhwystrau niferus a chymhleth i gyflogaeth, yn benodol y ffaith eu bod wedi bod yn ddi-waith yn y tymor hir ac / neu yn anweithgar yn economaidd ac ddim mewn addysg neu hyfforddiant. Nododd bod Cymunedau Ymlaen hefyd yn

gweithio'n agos gyda'r bobl ifanc hyn i ddod o hyd i hyfforddiant a chyflogaeth ar eu cyfer. Gan fod yr Awdurdod hwn yn llai o gymharu ag awdurdodau lleol eraill, pwysleisiodd y gall un person o fewn y categori hwn gynyddu'r % o fewn y dangosyddion perfformiad o ran pobl ifanc sy'n gadael cyflogaeth heb ymgymryd ag addysg / hyfforddiant parhaus;

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y cyfeiriad a wneir yn yr adroddiad at y ffaith bod rhan o'r refeniw a godir drwy'r premiwm 25% ychwanegol ar gartrefi gwag a chartrefi gwyliau yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu tai cymdeithasol; mynegwyd bod rhan o'r premiwm i fod ar gael i gefnogi prynwyr tro cyntaf. Ymatebodd Arweinydd y Cyngor drwy ddweud bod rhan o'r refeniw a godir yn cael ei ddefnyddio i gefnogi prynwyr tro cyntaf (a bod y swm wedi'i ddyfarnu'n llawn i bobl ifanc ar yr Ynys) ac nad yw'r premiwm yn cael ei ddefnyddio i adeiladu tai cymdeithasol. Nododd mai cyllid y Cyfrif Refeniw Tai fydd yn cael ei ddefnyddio i adeiladu tai cymdeithasol ar yr Ynys. Nodwyd ymhellach bod rhan o'r cyllid o'r premiwm ychwanegol ar gartrefi gwag / gwyliau yn cael ei ddefnyddio fel cyllid grant tuag at helpu pobl i osod gwres canolog a thoeau ar gartrefi; mae hwn yn gynllun grant arloesol. Dywedodd y Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol a Thrawsnewid y bydd y sylwadau uchod yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn maes o law.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith: -**

- **Y dylid cyhoeddi fersiwn derfynol Adroddiad Perfformiad 2017/18 erbyn y dyddiad statudol ar ddiwedd Hydref a bod y Swyddogion yn cwblhau hyn mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio - Corfforaethol fel y gellir ei gyhoeddi fel rhan o agenda'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 22 Hydref, 2018;**
- **Y dylid diwygio Adran 3.2 Cyfansoddiad y Cynghorau i gynnwys cymeradwyo penderfyniadau ar gyfer Datganiad ac Amcanion Llesiant y Cyngor yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2016 fel swyddogaeth y mae'n rhaid i'r Cyngor Llawn ei chyflawni.**
- **Awdurdodi'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r materion a neilltuwyd fel swyddogaethau y mae'n rhaid eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn yng Nghyfansoddiad y Cyngor ynghyd ag unrhyw newidiadau y mae'n rhaid eu gwneud o ganlyniad i adlewyrchu hyn.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**IS-GADEIRYDD YN Y CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref, 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Richard Griffiths, Alun Roberts, J. Arwel Roberts, Nicola Roberts<br><br>Aelodau Cyfetholedig: Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig), Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru)<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant) |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Dysgu<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo Dros Dro<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Richard Owain Jones, Bryan Owen |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd) R.G. Parry OBE, FRAgS (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo), Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid) |

---

### 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Dylan Rees ddiddordeb personol nad oedd yn rhagfarnu yn eitem 4 ar y rhaglen gan ei fod yn Gadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Bodffordd.

Datganodd y Cynghorydd Nicola Roberts ddatganiad personol nad oedd yn rhagfarnu yn eitem 4 ar y rhaglen gan ei bod yn llywodraethwr yn Ysgol y Talwrn ac Ysgol y Graig a’i merch yn ddisgybl yn Ysgol y Graig.

### 2 COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol, a chadarnhawyd eu bod yn gywir -

- 12 Medi, 2018
- 20 Medi, 2018 (cyfarfod galw i mewn)

DRAFT

3 **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**Penderfynwyd dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

4 **MODERNEIDDIO YSGOLION – ACHOS STRATEGOL AMLINELLOL/ACHOS BUSNES AMLINELLOL AR GYFER YSGOL GYNRADD NEWYDD I GYMRYD LLE YSGOL BODFFORDD AC YSGOL CORN HIR**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Dysgu yn ymgorffori'r Achos Strategol Amlinellol a'r Achos Busnes Amlinellol (ASA/ABA) ar y cyd ar gyfer ysgol gynradd newydd i gymryd lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir er mwyn i'r Pwyllgor eu hystyried a darparu sylwadau arnynt.

Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid at y cysylltiad rhwng yr ASA/ABA a Chynllun y Cyngor a blaenoriaethau corfforaethol eraill. Mae'r adroddiad yn nodi'r sail strategol, economaidd, masnachol ariannol a rheolaethol ar gyfer yr ysgol newydd yn unol â phroses Achos Busnes Ysgolion yr 21ain ganrif er mwyn derbyn cyllid cyfalaf ar gyfer y prosiect.

Cyflwynodd y Pennaeth Dysgu grynodeb o fanylion yr ysgol newydd fydd â lle i 360 o ddisgyblion ac a fydd yn ysgol gymunedol a fydd, o ganlyniad i hynny, yn cynnwys ardaloedd cymunedol; penderfynwyd ar safle'r ysgol newydd yn dilyn proses fanwl o arfarnu safleoedd; y broses gaffael ac amserlen cyflenwi'r prosiect.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a chodwyd y pwyntiau canlynol –

- Nododd y Pwyllgor fod safle'r ysgol newydd ar dir i'r gogledd o'r B5109, yn union wedi'r troad i'r dde i stad Bryn Meurig yn Llangefni, yn safle ar oleddf ac oherwydd amodau'r safle nodwyd bod angen gwneud gwaith ar y briffordd. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynglŷn â pha waith fyddai'n rhaid ei wneud.

  Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo Dros Dro bod y safle a ddewiswyd wedi cael ei asesu ac nad oedd unrhyw broblemau'n bodoli fyddai'n golygu ei fod yn anaddas o safbwynt priffyrdd cyhyd ag y bo'r datblygwr yn gwneud gwaith penodol fel rhan o gostau'r cynllun er mwyn lliniaru pryderon ynglŷn â Phriffyrdd. Cadarnhaodd y Swyddog fod trafodaethau manwl wedi eu cynnal ag ymgynghorydd Dylunio Priffyrdd y cynllun a bod nifer o opsiynau wedi cael eu hystyried. Cyfeiriodd at y Cynllun Priffyrdd a gynhwyswyd ym mhapurau'r pwyllgor sy'n manylu ar fân gylchfan arfaethedig a mynedfa oddi ar y B5109 i safle'r ysgol newydd. Argymhellir creu cylchfan er mwyn rheoli a diogelu llif y traffig a symudiadau i safle'r ysgol oddi ar y B5019 i gyfeiriad Bodffordd yn ystod yr adegau prysuraf yn y bore a'r prynhawn. Bydd y gylchfan hefyd yn gweithredu fel mesur tawelu traffig. Tynnodd y Swyddog sylw at groesfan i gerddwyr ar y dde i'r gylchfan ar y cynllun ar gyfer plant fydd yn croesi i'r ysgol newydd o ardal Corn Hir. Yn ogystal, argymhellir creu llwybr troed a llwybr beicio cyfunol, o led penodol, wrth ochr y groesfan fydd yn cynorthwyo i gwrdd ag amcanion Teithio Llesol. Bydd llwybr troed hefyd yn cael ei greu ar ochr yr ysgol o'r B5109 yn ymestyn cyn belled â chyffordd Lôn Rhostrehwfa ar gyfer plant sy'n teithio i'r ysgol o'r ardal honno. Y nod yw gwneud yr holl waith priffyrdd yn unol â'r amcangyfrif cost a amlinellir yn yr adroddiad, gyda'r costau hynny'n rhan o gostau cyffredinol datblygu'r safle.

- Nododd y Pwyllgor yr eglurhad a ddarparwyd ac awgrymwyd y dylid ystyried gweithredu un neu fwy o'r mesurau isod er mwyn lliniaru ymhellach yr hyn yr ystyriwyd eu bod yn risgiau'n gysylltiedig â gosodiad y lôn yn ardal yr ysgol newydd ac er mwyn gwella diogelwch -

DRAFT

- Adeiladu cylchfan i arafu llif y traffig ar hyd Lôn Cildwrn (sy'n debygol o gynyddu o ganlyniad i'r ysgol newydd) yn ychwanegol i'r gylchfan arfaethedig, yn arbennig gan fod troi i'r B5109 o gyffordd Rhostrehwfa yn gallu bod yn anodd.
- Cyfyngu cyflymder i 20 mya yng nghyffiniau'r ysgol newydd.
- Adeiladu cylchfan safonol yn lle'r fân gylchfan a argymhellir er mwyn sicrhau bod cerbydau yn teithio o gwmpas y gylchfan yn ddi-drafferth mewn un symudiad oherwydd bod safle'r ysgol yn debygol o fod yn brysur.
- Rhoi llinellau dwbl gerllaw'r ysgol newydd er mwyn gwahardd parcio ar y lôn – roedd y Pwyllgor yn nodi ac yn croesawu'r ddarpariaeth barcio arfaethedig ar safle'r ysgol newydd ond os na fyddai digon o lefydd parcio roedd yn dymuno ei gwneud yn glir nad yw parcio ar y briffordd yn dderbyniol.
- Lleihau neu lefelu'r gefnen ar y lôn sy'n arwain at safle'r ysgol newydd.
- Gosod goleuadau traffig ar y gyffordd o Rhostrehwfa.

Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo Dros Dro, er y byddai modd ystyried yr awgrymiadau uchod, y byddai gweithredu rhai neu'r cyfan o'r mesurau yn cynyddu costau. Esboniodd y byddai'r Awdurdod Priffyrdd yn delio ag unrhyw gais cynllunio yn gyson ac yn yr un modd ag y byddai'n delio â chais cynllunio gan ymgeisydd allanol. Yn ogystal, dywedodd y byddai'n rhaid cyfiawnhau unrhyw waith o safbwynt cynllunio fel a ganlyn -

- Mewn perthynas â chyflymder y traffig ar hyd Lôn Cildwrn at safle'r ysgol newydd, bydd creu llwybr o Rhostrehwfa i'r ysgol newydd yn golygu prynu darn bach o dir fydd yn gwella gwelededd i'r dde wrth gyffordd Rhostrehwfa. Byddai'n afresymol disgwyl i'r datblygwr gyllido gwelliannau ychwanegol i'r gyffordd hon gan na fydd cynnydd sylweddol mewn symudiadau traffig rhwng troad Rhostrehwfa a'r safle arfaethedig.
- Mewn perthynas â chyflwyno cyfyngiad cyflymder o 20 mya, rhaid ystyried mesur o'r fath yng nghyd-destun holl ysgolion yr Ynys. Yn ogystal, gan y byddai'r cyfyngiad mewn grym trwy'r dydd bob dydd pa sylw fyddai'n cael ei roi iddo ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol? Yn ei dro, mae hynny'n codi cwestiynau ynglŷn â gwerth y cyfyngiad ar ddiwrnodau ysgol. Bydd y gylchfan arfaethedig yn gorfodi traffig i arafu yn y man hwnnw a bydd yn gweithredu fel mesur tawelu traffig effeithiol.
- Bod y fynedfa i'r ysgol newydd wedi cael ei symud i gyfeiriad Bodffordd er mwyn sicrhau mwy o bellter rhwng y clip ar y ffordd ac er mwyn gwneud y gylchfan yn fwy gweladwy. Mae gwelededd i'r dde wrth adael yr ysgol ac ymuno â'r gylchfan arfaethedig yn cydymffurfio â safonau cenedlaethol. Byddai cost gostwng lefel y ffordd i'r un lefel â Lôn Rhostrehwfa yn afresymol.
- Bod nifer y llefydd parcio a ddarperir fel rhan o'r ysgol newydd yr uchaf posib y gellir eu darparu heb fynd yn groes i reolau cynllunio. Petai problemau parcio yn codi, yna mae rhoi llinellau dwbl ar y briffordd yn opsiwn.
- Lleolwyd y fân gylchfan yn ofalus ac yn ystyriol er mwyn hwyluso symudiad traffig. Bydd rhaid i gerbydau mwy sy'n teithio o gyfeiriad Bodffordd neu'n gadael safle'r ysgol i gyfeiriad Llangefni fynd dros y gylchfan, ac mae'n bosib gwneud hynny. Er y byddai modd edrych ar faint y gylchfan, byddai ei gwneud yn fwy yn creu goblygiadau posib o ran cost a thir.
- Mewn perthynas â gosod goleuadau traffig, gellir edrych ar hyn ond rhaid gwahaniaethu rhwng gwaith sy'n hanfodol fel rhan o'r datblygiad penodol hwn a gwaith sy'n ddymunol o safbwynt y rhwydwaith ffyrdd yn gyffredinol. Ni ddylid gosod amodau ar y datblygiad er mwyn cyllido unrhyw waith oni bai y gellir profi fod y datblygiad yn gwneud y sefyllfa'n waeth.

DRAFT

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynglŷn â fyddai'r contract am adeiladu'r ysgol newydd yn cynnwys cymal cosbi os nad yw'r gwaith yn cael ei gwblhau mewn pryd. Amlygwyd yr angen i ddiogelu'r Cyngor rhag gorfod ysgwyddo costau ychwanegol petai'r gwaith adeiladu yn mynd tu hwnt i'r amserlen.

  Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod contractau safonol yn cynnwys darpariaeth o'r fath beth bynnag. Fodd bynnag, weithiau gall ffactorau allanol tu hwnt i reolaeth y contractwr/datblygwr achosi oedi e.e. tywydd gwael. Bydd gwersi a ddysgwyd wrth adeiladu Ysgol Cybi ac Ysgol Rhyd y Llan o gymorth i osgoi gorwariant ar y prosiect dan sylw.

- Pwysleisiodd y Pwyllgor yr angen i sefydlu corff llywodraethu cysgodol mewn da bryd er mwyn sicrhau bod gan y gymuned lais yn yr ysgol newydd.

  Dywedwyd wrth y Pwyllgor, yn achos y ddwy ysgol newydd sydd wedi agor yng Nghaergybi a Llanfaethlu, y nod oedd rhoi corff llywodraethu cysgodol mewn lle tua 18 mis cyn i'r ysgol agor.

  Dywedwyd hefyd mewn ymateb i gwestiwn, bod trafodaethau gyda chymuned Bodffordd yn parhau mewn perthynas â'r adnodd gymunedol yn Ysgol Bodffordd yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith.

- Nododd y Pwyllgor yr achos ariannol dros greu'r ysgol newydd, ac o ganlyniad i'r rhaglen arbedion heriol y mae'r Cyngor yn bwriadu ei gweithredu yn ystod y tair blynedd nesaf, gofynnwyd am sicrwydd ynghylch fforddiadwyedd y prosiect.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y prosiect yn rhan o Fand A Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i'w chyllido ar y cyd â'r Cyngor. Mae cyfanswm cost Band A yn Ynys Môn dros £33m gyda Llywodraeth Cymru'n cyfrannu £16m. Felly, os bydd Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo ASA/ABA y prosiect mae'r cyllid ar gael i gwblhau'r gwaith. Mae trefniadau ariannu Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn golygu fod Llywodraeth Cymru'n cyfrannu 50% o'r costau, gyda ⅔ yn dod ar ffurf grant a'r ⅓ arall ar ffurf benthyca â chymorth, gyda'r Cyngor yn benthyca'r arian a Llywodraeth Cymru yn talu'r costau benthyg h.y. y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw a'r llog sy'n cael eu cynnwys yn y setliad. Y Cyngor sy'n gyfrifol am y 50% arall a bydd y derbynion cyfalaf o werthu hen adeiladu'r ysgolion yn cael ei ddefnyddio i leihau'r swm y mae'n rhaid ei fenthyg. Rhoddir manylion am anghenion cyllido'r Awdurdod ar gyfer y prosiect yn yr ASA/ABA; yn ogystal, nodir yr arbedion refeniw disgwyliedig ynghyd â chostau benthyg blynyddol. Bydd y benthyciad yn cael ei wneud ar gyfradd llog sefydlog dros gyfnod o 50 mlynedd. Er y bydd gweithredu'r prosiectau yn Band A yn gyffredinol yn golygu costau ychwanegol i'r Cyngor, bydd hefyd yn cynhyrchu arbedion wrth i ysgolion gael eu cau a nifer yr adeiladau ysgol leihau. Dywedodd y Swyddog, er bod cyllido cyfran y Cyngor o Raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain wedi cael ei gydnabod fel her erioed, mae'r cyfle i dderbyn cyfraniad o 50% tuag at ysgolion newydd yn gyfle rhy dda i golli ac nid yw'n debygol o gael ei gynnig fyth eto, felly bydd rhaid cwrdd â'r costau. Beth bynnag, byddai'n rhaid i'r Cyngor ganfod ffordd o gyllido'r ôl-groniad cynnal a chadw ysgolion yn llawn, sy'n swm sylweddol. Mae moderneiddio ysgolion yn mynd i'r afael â'r broblem honno.

**Ar ôl craffu ar yr ASA/ABA, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymell i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn cymeradwyo -**

DRAFT

- **Achos Strategol Amlinellol ac Achos Busnes Amlinellol (ASA/ABA) ar y cyd ar gyfer ysgol gynradd newydd i gymryd lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.**
- **Anfon yr Achos Strategol Amlinellol a'r Achos Busnes Amlinellol (ASA/ABA) ar gyfer ysgol gynradd newydd i gymryd lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir at Lywodraeth Cymru.** ***(Ataliodd y Cynghorwyr Lewis Davies ac Aled Morris Jones eu pleidlais ar y mater)***

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**Y Cynghorydd Aled Morris Jones**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

SGRIWTINI

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL: 2017/2018 → 2018/19

Cadeirydd: Cynghorydd Aled Morris Jones
Is-Gadeirydd: Cynghorydd Dylan Wyn Rees

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol am y cyfnod Mai 2017 ymlaen, fel rhaglen dreigl a theclyn cynllunio pwrpasol. Adroddir ar y blaen raglen waith i bob cyfarfod arferol o'r Pwyllgor Sgriwtini i'r pwrpas o adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio / dynnu eitemau yn ôl. Ei phwrpas hefyd ydy sicrhau aliniad gyda blaen raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Cyswllt: Anwen Davies (Rheolwr Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752578

E-bost: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| | **Mai, 2017** | |
| **31 Mai 2017**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 3.30yp | Ethol Cadeirydd y Pwyllgor | Trefniadau llywodraethiant effeithiol |
| | Ethol Is-Gadeirydd y Pwyllgor | Trefniadau llywodraethiant effeithiol |
| | **Mehefin, 2017** | |
| **26 Mehefin 2017**<br>**[CH4: 2016/17]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH4] 2016/17<br>Adroddiad SAC ar salwch fel atodiad | Monitro perfformiad |
| | Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, 2016/17 | Monitro perfformiad |
| | Strategaeth Tai Gwag 2017/2022 | Datblygu Polisi |
| | Aelodaeth Paneli a Byrddau | Enwebu Aelodau |
| | Blaen raglen waith – adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| | **Gorffennaf, 2017** | |
| **11 Gorffennaf 2017**<br>**[Cyfarfod arbennig]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 1yp | Moderneiddio Ysgolion – Ymgynghoriad Statudol ardal Llangefni | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Moderneiddio Ysgolion – Rhaglen Amlinellol Strategol – Band B (2019/24) | Trawsnewid |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad |
| | Aelodaeth Paneli a Byrddau – enwebiad i'r Panel Gwella Ysgolion | Enwebu Aelodau |
| | **Medi, 2017** | |
| **4 Medi 2017**<br>**[CH1: 2017/18]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Sgorffwrdd Corfforaethol [CH1 ] 2017/18 | Monitro perfformiad |
| | Cynllun y Cyngor 2017/2022 | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant<br>Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith – adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| | | blaenoriaethau corfforaethol |
| | Eitem er Gwybodaeth: Adroddiad Blynyddol Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (2016/17) | Er gwybodaeth / monitro perfformiad |
| **Hydref, 2017** | | |
| **2 Hydref 2017** **[Cyfarfod arbennig]** Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Perfformiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol 2016/17 (AGGCC) | Monitro perfformiad |
| | Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2016/17 | Monitro perfformiad |
| | Tai Gofal Ychwanegol – Ardal Seiriol | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ardal Seiriol | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| **31 Hydref 2017** **[Cyllideb]** Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Cynigion Cychwynnol Cyllideb 2018/19 | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Cynllun Ymgynghori ar Gyllideb 2018/19 | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| **Tachwedd, 2017** | | |
| **13 Tachwedd 2017** **[CH2: 2017/18]** Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH2] 2017/18 | Monitro perfformiad |
| | Trawsnewid Gwasanaethau Llyfrgelloedd | Trawsnewid |
| | Strategaeth Rheoli Asedau -Tai Cyngor | Datblygu Polisi |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant<br>Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| **Rhagfyr, 2017** | | |
| **14 Rhagfyr 2017** **[Cyfarfod Arbennig]** Ystafell Bwyllgor 1 | Trawsnewid y Gwasanaeth Diwylliant – Carchar a Llys Biwmaris | Galw Mewn penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith ar 27/11/17 (galw mewn gan y Cyng Aled Morris Jones, Eric Wyn Jones, Kenneth Hughes, Bryan Owen a Peter Rogers) |

Tudalen 17

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| **Ionawr, 2018** | | |
| **31 Ionawr, 2018** **[Cyfarfod Arbennig]** Ystafell Bwyllgor 1 / 1yp | Tai Gofal Ychwanegol – ardal Seiriol (crynodeb o adborth yn sgîl y broses ymgysylltu) | Trawsnewid |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant<br>Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad |
| | Cludiant ysgol | Cyfeiriad gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant / Monitro perfformiad |
| | Rhaglen Wella Mân-ddaliadau | Rhybudd o gynnig o'r Cyngor Llawn |
| | Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd (2016/17) | Monitro perfformiad – er gwybodaeth |
| **Chwefror, 2018** | | |
| **5 Chwefror 2018** **[Cyllideb]** Ystafell Bwyllgor 1 / 1yp | Cyllideb Ddrafft 2018/19 | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| | Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (Panel Sgriwtini Cyllid) | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| **Mawrth, 2018** | | |
| **12 Mawrth 2018** **[CH3: 2017/18]** Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH3] 2017/18 | Monitro perfformiad |
| | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Seiriol | Trawsnewid |
| | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Llangefni (Y Graig a'r Talwrn) | Trawsnewid |
| | Asesiad Digonolrwydd Chwarae | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| **Ebrill, 2018** | | |
| **23 Ebrill 2018** | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Llangefni (Corn Hir, Bodffordd a | Trawsnewid |

Tudalen 18

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Henblas) | |
| | Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol – cynnydd ar y meysydd blaenoriaeth | Monitro perfformiad [Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 02/10/17] |
| | Trawsnewid Gwasanaethau Anableddau Dysgu | Trawsnewid |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| **Mehefin, 2018** | | |
| **4 Mehefin, 2018** **[CH4: 2017/18]** Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH4] 2017/18 | Monitro perfformiad |
| | Trafnidiaeth Ysgol – diweddariad ar wireddu'r cynllun gweithredu (er gwybodaeth) | Monitro perfformiad [Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 31/01/18] |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant<br>Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith – adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| **Gorffennaf, 2018** | | |
| **5 Gorffennaf, 2018** **[Cyfarfod Arbennig]** Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni (Y Graig a'r Talwrn) | Trawsnewid |
| | Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol | Monitro perfformiad |
| **13 Gorffennaf, 2018** **[Cyfarfod Arbennig]** Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ardal Seiriol | Trawsnewid |
| **Awst, 2018** | | |
| **2 Awst, 2018** **[Cyfarfod Arbennig]** Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ardal Llangefni (Y Talwrn a'r Graig) | Galw Mewn penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith ar 16/07/18 (galw mewn gan y Cyng Aled Morris Jones, Eric Wyn Jones, Lewis Davies, Bryan Owen a Peter Rogers) |
| **6 Awst, 2018** **[Cyfarfod Arbennig]** Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ardal Seiriol | Galw Mewn penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith ar 18/07/18 (galw mewn gan y Cyng Aled Morris Jones, John Arwel Roberts, Robert Llewelyn Jones, Bryan Owen a Peter Rogers) |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| **Medi, 2018** | | |
| **12 Medi, 2018**<br>**[CH1: 2017/18]**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH1] 2018/19 | Monitro perfformiad |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant<br>Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad |
| | Eitem er Gwybodaeth: Adroddiad Blynyddol Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (2017/18) | Er gwybodaeth / monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| **20 Medi, 2018**<br>**[Cyfarfod Arbennig]**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Gwaredu adeilad hen Ysgol Llaingoch, Caergybi | Galw Mewn penderfyniad gan y Deilydd Portffolio ar 30/08/18 (galw mewn gan y Cyng Shaun Redmond, Peter Rogers, Eric Wyn Jones, Bryan Owen ac Aled Morris Jones) |
| **Hydref, 2018** | | |
| **8 Hydref, 2018**<br>**[Cyfarfod Arbennig]**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 1yp | Strategaeth Trawsnewid Addysg a Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn – diweddariad (2018) | Trawsnewid |
| | Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2017/18 | Monitro perfformiad |
| **24 Hydref, 2018**<br>**[Cyfarfod Arbennig]**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Achos Busnes Amlinellol Ysgol Gynradd Newydd yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir | Trawsnewid |
| **Tachwedd, 2018** | | |
| **6 Tachwedd, 2018**<br>**[Cyllideb]**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cynigion Cychwynnol Cyllideb 2019/20 | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Cynllun Ymgynghori ar Gyllideb 2019/20 | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| **23 Tachwedd, 2018 [Ch2: 2018/19]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH2] 2018/19 | Monitro perfformiad |
| | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Achos Busnes Amlinellol Ysgol Gynradd Newydd yn lle Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn | Trawsnewid |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| **Rhagfyr,2018** | | |
| **10 Rhagfyr, 2018 [Cyfarfod Arbennig]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 10yp | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant<br>Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad |
| **Chwefror, 2019** | | |
| **4 Chwefror, 2019 [Cyllideb]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cyllideb Ddrafft 2019/20 | Sgriwtini cyn penderfyniad |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| **Mawrth, 2019** | | |
| **11 Mawrth, 2019 [CH3: 2018/19]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH3] 2018/19 | Monitro perfformiad |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant<br>Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| **Ebrill, 2019** | | |
| **8 Ebrill, 2019**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol |
| **EITEMAU I'W RHAGLENNU** | | |
| I'w gadarnhau (Mehefin, 2019) | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH4] 2018/19 | Monitro perfformiad |
| I'w gadarnhau | Rheoli Ynni | Monitro perfformiad<br>(Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 31/10/17) |



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| I'w gadarnhau | Tlodi Tanwydd – cynlluniau i gefnogi cartrefi | Monitro perfformiad<br>[Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 13/11/17] |
| I'w gadarnhau | Effeithiau Diwygio Lles | Monitro perfformiad |
| I'w gadarnhau | Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol | Datblygu polisi<br>[Fforwm Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Scrutiny, 18/06/18] |
| I'w gadarnhau | Archwiliad Arolygiaeth Gofal Cymru – Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | Monitro perfformiad |

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgrwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 6.11.18 |
| **Pwnc:** | Cynllun Ymgynghori Cyllideb 2019/20 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | I ennyn cytundeb i'r cynllun atodol |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Aled M. Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Dafydd Rh. Thomas |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Carys Edwards |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Gethin Morgan<br>752111<br>gethinmorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Dd/B |

**1 – Argymhelliad/ion**

1.1. Mae'r atodol yn cynnig disgrifiad lefel uchel o'r cynllun ymgynghori arfaethedig ar gyfer y gyllideb i'w wireddu yn ystod y cyfnod – wythnos yn cychwyn Tachwedd 12fed hyd at Rhagfyr 31ain, 2018.

1.2. Mae'n cyfleu dull weithredu traws sector gyda'r bwriad o gyflwyno sylwadau'r dinesydd drwy –

a. Y Wasg
b. Cynghorau Tref a Chymuned
c. Gweithdai Rhanddeiliaid
d. Y We
e. Cyfryngau Cymdeithasol
f. Panel Dinasyddion
g. Gweithdai Plant a Phobl Ifanc

1.3. Gofynnir i'r Pwyllgor archwilio'r cynllun arfaethedig sydd yn seiliedig ar gynlluniau y ddwy flynedd diwethaf fel y gellid gwella'r cynllun ymgynghori cyllidebol i'r dyfodol ac hefyd uchafu ymwybyddiaeth corfforaethol o'r gwaith disgwyliedig dros y cyfnod a nodir drwy gytuno I'r cynllun a nodir.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

2.1 Mae'r cynllun hwn yn cael ei gynnig fel cynllun ymgynghori ar faterion cyllidol sydd yn cyd-fynd a datblygaid y Cyngor dros y blynyddoedd i ddod ac sy'n cael ei amlygu yng nghynllun y Cyngor 2017-2022.

| |
|---|
| 2.2 Mae'r ymgynghoriad yma yn cyd-fynd a'r nod o '*gynnwys a pharhau i ymgysylltu gyda thrigolion Ynys Mon ynghylch y ffordd y gwneir penderfyniadau*' |
| |

| **3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**<br><br>**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• hirdymor<br>• atal<br>• integreiddio<br>• cydweithio<br>• cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |

| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
|---|
| **4.1** Oes ym marn y Pwyllgor unrhyw randdeiliad sydd angen eu cynnwys sydd ddim ar y rhestr presennol?<br><br>**4.2** Pa ddatblygiad o'r broses eleni sydd yn welliant ar y broses llynedd?<br><br>**4.3** Oes ym marn y Pwyllgor ychwanegiadau penodol sydd ei angen I'r cynllun yn ei gyfanrwydd? |

| **5 – Cefndir / Cyd-destun** |
|---|
| Mae'r cynllun atodol wedi ei drafod yng nghyfarfod diweddar y Bwrdd Ymgysylltu & Ymgynghori (22.10.18) a roddodd yr arweiniad fod angen gwell presenoldeb a thrafodaeth gyda'r ifanc fel rhan o'r cynllun ymgynghori eleni.<br><br>Yn ogystal, cyflwynwyd y cynllun i sesiwn briffio ar gyfer holl aelodau'r Cyngor Sir ar y 30ain o Hydref. |

| 6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| Mae'r cynllun wedi ei lunio i sicrhau mewnbwn ac ymateb cynifer o drigolion a phosib o wahanol ardaloedd a chefndiroedd. Bydd asesiadau effaith parthed y cynigion penodol yn cael ei gysidro fel rhan o drafodaeth ehangach y broses. |

| 7 – Oblygiadau Ariannol |
|---|
| Bydd oblygiadau ariannol gwireddu'r cynllun hwn yn fychan iawn. Adnodd ac amser staff fydd ei angen i'w wireddu gydag ychydig o wariant refeniw yn cael ei ragweld ar gynnal paneli a trafodaethau gyda trigolion penodol. |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| Atodiad A – Cynllun Ymgynghori / Cyfathrebu Cynnigion Cyllidol Cyngor Sir Ynys Mon 2019/20 |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| Cynllun y Cyngor 2017-2022 |

**CYNLLUN YMGYNGHORI / CYFATHREBU –**

**CYNNIGION CYLLIDEBOL CYNGOR SIR YNYS MÔN 2019/20**

Pwrpas y cynllun hwn yw cydnabod y meysydd sydd angen sylw er mwyn ymgynghori'n eang a thrylwyr. Bydd hyn yn sicrhau bod cynnig terfynol y Pwyllgor Gwaith o gyllideb 2019/20 i'r Cyngor ym mis Chwefror 2019 yn rhoi sylw i safbwyntiau gwahanol ac yn cydnabod effaith a'r risgiau sydd yn bodoli.

Mae'r cynllun yn rhoi brasamcan i'n dinasyddion / partneriaid o'r heriau a wynebwn fel corff cyhoeddus.

Mae'r amserlen canlynol yn cwmpasu'r dyddiadau Tachwedd y 13eg - Rhagfyr 31ain.



| Cyfeirnod | Dyddiad / Cyfnod | Digwyddiadau / Ymgyrchoedd a Phwrpas | Arwain | Cymorth | Er Gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| A | 17.9.18 | Cyfarfod Pwyllgor Gwaith i dderbyn y MTFP a rhoi sel bendith i'r ffordd ymlaen am y 3 blynedd nesa' | Cyllid | Cyllid / Tim Rheoli Perfformiad a Busnes | UDA / Penaethiaid |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| B | 6.11.18 | Cyfarfod Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol fydd yn craffu ar effaith / meysydd o bryder a adnabuwyd yn y gweithdai mis Hydref. Rhoi sylw i'r cynllun ymgynghori. | Rheolwr Sgrwtini Corfforaethol | Penaethiaid | Cyllid / Deilyddion Portffolio |
| C | 12.11.<br>18 | Cyfarfod Pwyllgor Gwaith i gynnig arbedion arfaethedig 2019/20 i bwrpas ymgynghori (gan ddeall effeithiau'r newidiadau). | Cyllid | Tim Rheoli Perfformiad a Busnes | UDA a Phenaethaid |
| Ch | Diwedd<br>Tachwe dd | Cyfarfod Grwp Rhanddeiliaid Cynghorau Tref a Chymuned i drafod cyfleoedd ac oblygiadau y cynigion posib. | Arweinydd | Cyllid / Tim Rheoli Perfformiad a Busnes | J Huw Jones<br>Penaethiaid |
| D | I'w bennu | *****Gweithdy Rhanddeiliaid yn y Siambr / YB1 i drafod y cyfleoedd a'r risgiau cynigion arfaethedig 2019/20***** | Rheolwr Cynllunio Busnes a Pherfformiad | Tim y Wasg<br>Uwch Gyfrifydd Cyllid<br>Arweinydd a Phrif Weithredwr | Penaethiaid |

| Ymgyrch hyrwyddo'r arbedion yn yr 'arena' cyhoeddus drwy amryw o sianeli gwahanol……. | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| DD | 7.11.18 | Sesiwn briffio i'r Wasg ynglyn a chynigion cychwynnol cyllideb 2019/20. Codi ymwybyddiaeth y darllenwyr a cadw'n dynn i linellau corfforaethol o gyfathrebu. | Swyddog y Wasg | Cyllid / Tim Rheoli Perfformiad a Busnes | Penaethiaid a Staff |
| E | 13.11.18– 31.12.18 | Ymgyrch hyrwyddo'r arbedion arfaethedig ar y we gydag holiadur pwrpasol wedi ei lunio i dderbyn sylwadau trigolion yr Ynys. Y defnydd ehangach o FB a Twitter yn hanfodol bwysig yma bellach yn ogsytal a cyfweliad radio i'r Arweinydd ar MonFM. | Tim Rheoli Perfformiad a Busnes | Cyllid / Lleisiau'n Lleol | Staff |
| F | 12.11.18 – 31.12.18 | Defnydd o banel dinasyddion a'r grwpiau cymunedol sydd wedi'i ffurfio a fforymau priodol megis Cyngor Ieuenctid ac Ysgolion i gynnig arweiniad a rhoi adborth ar feysydd sydd ag effaith uniongyrchol ar unigolion y fforymau hynny.<br>• ***Fforwm Cyllid Ysgolion (Rhagfyr)*** | Rheolwr Cynllunio Busnes a Pherfformiad | Medrwn Mon<br>Tim y Wasg | PW Cynorthwyol |

Tudalen 28

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | • ***Fforwm Pobl Hyn (30.11.18)***<br>• ***Fforwm Pobl Ifanc (19.11.18)*** | | | |

Bydd y cynllun uchod yn ein galluogi fel Swyddogion i goladu a chasglu'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn ffurfio adroddiad i gynyddu'r ymwybyddiaeth o safbwyntiau gwahanol unigolion a mudiadau i'r cynigion arfaethedig i bwrpas adrodd ar y rhain (i) mewn sesiwn briffio cyn ddiwedd Ionawr a (ii) yng nghyfarfod Sgrwtini Corfforaethol dechrau mis Chwefror 2019.

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI
# *NOT FOR PUBLICATION*

**Teitl yr Adroddiad /*Title of report***
**Cyllideb Refeniw Drafft 2019/20 *Draft Revenue Budget***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
***PUBLIC INTEREST TEST***

| | |
|---|---|
| Paragraff(au)<br>*Paragraph(s) 12, 13, 14, 15* | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 /*Schedule 12A Local Government Act 1972* |
| **Y PRAWF – *THE TEST*** | |
| Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd<br><br>*There is a public interest in disclosure as:-*<br><br>Mae yna fudd cryf i'r cyhoedd yn nhryloywder ynglyn â materion cyllidebol a gwario cyhoeddus yn amseroedd o bwysau ariannol.<br><br>*There is a strong public interest in transparency about budgetary matters and public spending in times of financial pressure*. | Y budd i'r cyhoedd wrth beidio datgelu yw<br><br>*The public interest in not disclosing is:-*<br><br>Mae'r adroddiad yn cyfeirio at unigolion penodol yn eu swyddi. Mae yna fudd cryf i'r cyhoedd i sicrhau y datgelir gwybodaeth yn adroddiadau mewn ffordd nad yw'n annheg na'n anghydnaws â hawliau unigolion o dan ddeddfwriaeth gwarchod data a phreifatrwydd.<br><br>Mae'r adroddiad yn cyfeirio at faterion cyflogadwyaeth a all godi mewn ymgynghoriadau neu drafodaethau. Mae yna fudd cryf i'r cyhoedd i sicrhau nad amharir ar na ragfernir unrhyw ymgynghoriad neu ymgynghoriad a ystyrir drwy ddatgelu i'r byd eang ar bwynt cynamserol.<br><br>Mae'r adroddiad yn cynnwys cyfeiriadau i wybodaeth ynglyn â materion busnes y Cyngor a all roi'r Cyngor dan anfantais mewn trafodaethau masnachol yn ystod caffael gwasanaethau. Mae yna fudd cryf i'r cyhoedd i sicrhau na ddatgelir gwybodaeth mewn ffordd sy'n niweidiol i fuddiannau ariannol y Cyngor ac, yn y pen draw, y bobl y gwasanaethir. |

| | |
|---|---|
| | Fe ddatgelir y gyllideb maes o law, mae hyn yn gwanhau unrhyw ddadleuon o blaid datgelu'r adroddiad yma ar sail tryloywder. Bydd tryloywder yn cael ei fodloni maes o law ac fe fodloni'r budd cyhoeddus dilys. |
| | *The report makes references to specific individuals in their job-roles. There is a strong public interest in ensuring that information is disclosed in reports in a way that is not unfair and incompatible with individuals' rights under data protection and privacy legislation.*<br><br>*The report refers to employment matters which could arise in consultations or negotiations. There is a strong public interest in ensuring that consultations or contemplated consultations are not impacted or prejudiced through disclosure to the world at large at an untimely point.*<br><br>*The report contains references to information about the business affairs of the Council, which could place the Council at a disadvantage in commercial discussions during the procurement of services. There is a strong public interest in ensuring that information is not disclosed in a way that is detrimental to the financial interests of the Council and, ultimately, the people it serves.*<br><br>*The budget will be disclosed in due course, this weakens any public interest arguments in favour of disclosure of this report on the grounds of transparency; transparency will be satisfied in due course and the public's legitimate interest will be satisfied.* |

**Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.
***Recommendation*** - *The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.*

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13, 14, 15 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth  Leol 1972.



Document is Restricted

This page is intentionally left blank